# Helpu defnyddwyr i gael bargeinion gwell

## Datganiad ar hysbysiadau diwedd contract a gwybodaeth flynyddol am dariffau gorau

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mai 2019

# 1. Trosolwg

**Mae Ofcom yn credu'n gryf y dylai cwsmeriaid gael bargen deg ar gyfer eu gwasanaethau cyfathrebu. Rydyn ni eisiau i gwsmeriaid allu manteisio ar y dewis eang o wasanaethau sydd ar gael a siopa'n hyderus, fel eu bod yn gallu cael y bargeinion gorau ar gyfer eu hanghenion. I helpu cwsmeriaid i wneud hyn, rydyn ni'n gorfodi gofynion newydd ar ddarparwyr i anfon gwybodaeth bwysig at eu cwsmeriaid pan mae eu contractau'n dod i ben ac yn rheolaidd ar ôl hynny.**

## Ein penderfyniad – yn gryno

**Rhaid i gwmnïau band eang, ffonau symudol, ffonau cartref a theledu drwy dalu hysbysu eu cwsmeriaid preswyl a busnes ynghylch pryd mae cyfnod sylfaenol eu contract yn dod i ben.**[1] Bydd cwsmeriaid preswyl yn derbyn hysbysiad ar wahân rhwng 10 a 40 diwrnod cyn diwedd eu contract. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys dyddiad dod i ben y contract sylfaenol; y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd a'r pris sy'n cael ei dalu; unrhyw newidiadau i'r gwasanaeth a'r pris sy'n cael ei dalu ar ddiwedd y cyfnod hwn; a gwybodaeth ynglŷn â'r cyfnod rhybudd sydd ei angen i derfynu'r contract. Hefyd bydd cwsmeriaid busnes yn derbyn hysbysiad i roi gwybod iddynt am ddiwedd cyfnod sylfaenol y contract a sut gallant derfynu'r contract.

**Bydd yr hysbysiadau hyn yn dweud wrth gwsmeriaid preswyl am y tariffau gorau sydd ar gael gan eu darparwr.** Byddant yn cynnwys o leiaf un fargen SIM yn unig ar gyfer pobl sy'n cynnwys cost ffôn symudol yn y bwndel gyda'u hamser ar yr awyr. Byddant hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y prisiau sydd ar gael i gwsmeriaid eraill, fel cwsmeriaid newydd. Mae hyn yn golygu y gall pobl weld a ydynt ar eu colled ac a ddylent feddwl am gyfnewid. Bydd cwsmeriaid busnes yn cael gwybodaeth am y tariffau gorau gan eu darparwr ar ffurf sy'n addas iddynt hwy.

**Bydd cwsmeriaid sy'n parhau allan o gontract yn cael gwybodaeth am dariffau gorau gan eu darparwr bob blwyddyn o leiaf.** Ar gyfer cwsmeriaid preswyl, bydd hwn yn hysbysiad blynyddol sy'n cynnwys gwybodaeth am eu contract presennol, yn ogystal â'r tariffau gorau ar gyfer y gwasanaethau maent yn eu prynu.

**Daw'r gofynion hyn i rym ar 15 Chwefror 2020.** Bydd hyn yn galluogi i ddarparwyr weithredu'r diwygiadau'n ddibynadwy ac yn effeithiol, drwy newid eu systemau a'u prosesau, fel eu bod yn barod i anfon miliynau o hysbysiadau cwsmeriaid drwy neges destun, e-bost neu lythyr.

**Bydd Ofcom yn monitro effaith yr hysbysiadau.** Er enghraifft, byddwn yn casglu gwybodaeth gan ddarparwyr ac yn cynnal ymchwil cwsmeriaid ar ymgysylltu â hysbysiadau darparwyr a'u heffeithiolrwydd. Hefyd, efallai y byddwn yn cynnal treialon rheolaeth ar hap os bydd ein monitro ar yr hysbysiadau'n dangos potensial ar gyfer gwelliannau o ran sut mae darparwyr yn gweithredu'r gofynion.

---

[1] Pan rydyn ni'n cyfeirio at 'ddiwedd contract' neu 'gyfnod contract sylfaenol', neu fod 'mewn contract' neu 'allan o gontract', mae hyn yn cyfeirio at gyfnod ymrwymiad sefydlog cwsmeriaid.

## Cefndir

1.1 Mae sicrhau bod cwsmeriaid yn cael eu trin yn deg yn flaenoriaeth ar gyfer ein gwaith ni eleni. Rydyn ni eisiau i gwsmeriaid siopa gyda hyder, gwneud dewisiadau doeth a chael bargen deg.

1.2 Yn aml, mae cwsmeriaid gwasanaethau band eang, ffonau symudol, teledu drwy dalu a ffonau cartref yn llofnodi contractau sy'n eu hymrwymo i dalu am y gwasanaeth hwnnw am isafswm penodol o amser, 12, 18 neu 24 mis fel rheol. Mae hyn yn golygu na all cwsmeriaid ganslo eu gwasanaethau na newid i ddarparwr gwahanol cyn diwedd y cyfnod hwn heb dalu ffi ganslo.

1.3 Ar ôl i gyfnod sylfaenol y contract ddod i ben, mae cwsmeriaid yn rhydd i newid i fargen well gyda'i ddarparwr presennol neu newid darparwyr heb dalu unrhyw ffioedd. Fodd bynnag, nid yw llawer o gwsmeriaid yn manteisio ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt yn y pwynt hwn ac, o ganlyniad, efallai eu bod yn talu mwy na sydd angen neu'n profi newidiadau awtomatig i'w gwasanaethau. Mae ein hymchwil yn dangos bod llawer o gwsmeriaid yn ddryslyd am statws eu contract ac nad ydynt yn ymwybodol o'r opsiynau, yr arbedion neu'r manteision sydd ar gael iddynt pan ddaw cyfnod sylfaenol eu contract i ben.

1.4 I helpu i roi sylw i hyn, rydyn ni'n credu y dylai ein cwsmeriaid gael gwybod ar amser priodol am statws eu contract, fel eu bod yn gallu ystyried gweithredu.

## Ein cynigion blaenorol

1.5 Fis Gorffennaf 2018, fe wnaethom gynnig rheolau newydd i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr anfon hysbysiad at eu cwsmeriaid pan mae cyfnod sylfaenol eu contract yn dod i ben, a hysbysiad i'r rhai sydd eisoes allan o gontract. Fis Rhagfyr 2018, aethom ati i ymgynghori ar y rheolau diwygiedig a oedd yn seiliedig ar weithredu cod newydd, sef Cod Cyfathrebiadau Electronig Ewropeaidd. Roedd ein cynigion wedi'u diweddaru'n cynnwys gofynion i ddweud wrth gwsmeriaid preswyl a busnes am y tariffau gorau sydd ar gael gan ddarparwyr yn yr hysbysiadau hyn.

1.6 Cawsom amrywiaeth o ymatebion i'n hymgynghoriad ym mis Rhagfyr gan ddarparwyr cyfathrebiadau, cyrff defnyddwyr, grwpiau eiriolaeth, cyrff diwydiant a sefydliadau ac unigolion eraill. Roedd yr ymatebwyr yn gefnogol i'n cynigion ni gan fwyaf. Fodd bynnag, mynegwyd nifer o bryderon gan ddarparwyr, yn benodol am y gofyniad i ddweud wrth gwsmeriaid am eu tariffau gorau a sut byddai hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol, a'r gofyniad i anfon hysbysiadau at bob cwsmer busnes.

## Ein penderfyniad

1.7 Ar ôl ystyried y sylwadau ar ein cynigion yn ofalus, rydyn ni wedi penderfynu ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr anfon hysbysiadau diwedd contract gyda'r cyngor am y tariff gorau at gwsmeriaid preswyl a busnes. Hefyd rydyn ni wedi penderfynu y dylai'r holl gwsmeriaid sy'n parhau allan o gontract dderbyn gwybodaeth flynyddol am y tariff gorau.

1.8 Rydyn ni wedi gwneud rhai addasiadau i gynigion mis Rhagfyr er mwyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gennym. Yn benodol, rydyn ni wedi diwygio ein dull o weithredu gyda chwsmeriaid busnes i ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran sut maent yn bodloni’r gofynion i ddarparu hysbysiad diwedd contract a gwybodaeth flynyddol am y tariff gorau i’r cwsmeriaid hynny. Hefyd rydyn ni wedi darparu gwell eglurder mewn perthynas â chynnwys gofynnol yr hysbysiadau.

1.9 Rydyn ni’n gweithredu rheolau newydd (a elwir yn amodau cyffredinol) ac rydyn ni’n cyhoeddi cyfarwyddyd ar sut rydyn ni’n disgwyl i ddarparwyr gydymffurfio â’r gofynion newydd ar gyfer cwsmeriaid preswyl.

1.10 Rydyn ni’n rhoi naw mis i ddarparwyr weithredu’r newidiadau hyn, i roi amser iddynt wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w systemau a’u prosesau - yn benodol, y newidiadau gofynnol i ddweud wrth gwsmeriaid am eu tariffau gorau. Felly bydd cwsmeriaid yn dechrau derbyn yr hysbysiadau hyn o 15 Chwefror 2020 ymlaen.